- Dysgwyr Uchelgeisiol, Galluog
- Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus
- Cyfranwyr Mentrus, Creadigol
- Unigolion Iach, Hyderus

www.ygglllangynwyd.cymru
@ygglllangynwyd

HYDREF | 2021

# Llais y Llan

## NEGES Y PRIFATHRO

Siw mae bawb. Mor braf yw cyhoeddi llwyddiannau ein dysgwyr unwaith yn rhagor yn ein cylchgrawn ysgol Llais y Llan. Er gwaethaf anawsterau'r 18 mis diwethaf, mae'n hyfryd gallu rhannu dathliadau'r ysgol o'r haf a'r hanner tymor diwethaf.
Rydym mor falch o'n dysgwyr wrth iddynt ddangos eu gwydnwch, dyfalbarhad a mwynhad i gymryd rhan mewn amrywiaeth helaeth o weithgareddau allgyrsiol.
Hoffem ddiolch i'r staff a'r rhieni, sydd bob amser mor gefnogol i'r dysgwyr, wrth i ni ddechrau ail-gydio mewn ffordd mwy arferol o weithio yn ein cymuned ysgol. Diolch bawb - ac edrychwn ymlaen nawr i flwyddyn arall o lwyddiant. #TîmLlan

## LLWYDDIANT DUG CAEREDIN

Roedd dysgwyr blwyddyn 10 ac 11 Llangynwyd wedi llwyddo i oresgyn y gwaethaf y gwynt a'r glaw yn ystod alldeithiau Dug Caeredin Efydd yn ystod mis Medi a Hydref. Cerddwyd dysgwyr am ddau ddiwrnod o bentref Llangynwyd hyd at barc Margam yn dysgu sgiliau cyfeiriannu hollbwysig yn yr alldaith ymarfer. Gyda bach mwy o hyder yn cyfeiriannu, a chryn dipyn o ddyfalbarhad yn y glaw, cwblhawyd y dysgwyr yr alldaith asesu yn cerdded am ddau ddiwrnod arall rhwng pentref Bryn ac ardal Afan Argoed. Llongyfarchiadau mawr i'r dysgwyr i gyd am lwyddo i gwblhau'r adran yma o'r wobr Efydd! Diolch o galon hefyd i bob aelod o staff fu'n gwirfoddoli i gynnig y cyfle yma i'n dysgwyr ac yn enwedig i Mr Huw Rees am ei drefnu.



## LLONGYFARCHIADAU



Mae'r adran ddrama a'r ysgol gyfan yn llongyfarch Sophie Williams, blwyddyn 12, sydd wedi cael ei derbyn i gynllun Stiwdio Actorion Ifanc yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Ddrama. Hi yw'r aelod mwyaf ifanc erioed. Mi fydd Sophie yn mynychu'r coleg bob Dydd Sul gan ddysgu sgiliau actio gyda'r prif ffocws ar gael mynediad i brifysgol neu coleg ddrama.


## PRIF SWYDDOGION 2021-22


Llongyfarchiadau i brif swyddogion a dirprwyon newydd yr ysgol. Maent yn frwd i gydio yn eu gwaith wrth arwain Senedd a phwyllgorau yr ysgol.



Prif swyddog Garw Tomas Charles / Dirprwy Chessie Jarvis
Prif swyddog Llynfi Cerys John / Dirprwy Amy Burnett
Prif swyddog Ogwr Arwen Jones / Dirprwy Hedd Williams

## DIWRNOD SIW'MAE SU'MAE 2021






Ar ddydd Gwener, 15 Hydref, roedd bwrlwm o gwmpas yr ysgol wrth i ni ddathlu Diwrnod Siw'mae Su'Mae eleni. Un o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd y cwis i flwyddyn 7. Da iawn i'r holl enillwyr!

## CYD-WEITHIO GYDA'R HEDDLU



Yn ystod y tymor mae wedi bod yn braf i groesawu ein PCSOs mewn i'r ysgol ar sawl achlysur i weithio gyda'r dysgwyr i godi ymwybyddiaeth o faterion pwysig gan gynnwys sut i gadw eu hunain yn ddiogel yn y gymuned ac ar-lein.

## CLWB CODIO

Braf oedd gweld cymaint o ddysgwyr yn mynychu'r Clwb Codio'r hanner tymor yma! Mae hi'n glwb poblogaidd iawn sydd ar hyn o bryd gyda brîff arbennig- Dangos Cymru a Chymreictod i'r byd trwy technoleg! Mae'r her yma'n seiliedig ar brosiect yn Awstralia lle mae pobl yn dysgu am ddiwylliant ac ieithoedd brodorol eu gwlad ac yn eu rhannu trwy dechnoleg. Ar hyn o bryd mae'r clwb yn gweithio ar robotiaid sy'n siarad Cymraeg, stori Branwen ar ffurf byd ym Minecraft, tai crwn, y ddraig goch - a llawer mwy i ddod. Cofiwch mae cystadleuaeth creadigol Eisteddfod yr Urdd nawr wedi'i gyhoeddi.

# Addysg Gorfforol - Tu Hwnt I'r Ysgol

## PÊL-DROED

Yn ystod yr haf bu dysgwr blwyddyn 11, Tianna Teisar yn cynrychioli tîm pêl-droed Cymru dan 17 oed yn erbyn Lloegr ac wedi cael ei dewis i fod yn gapten y tîm! Gêm gyfartal (1-1) oedd y canlyniad. Yn ogystal, dyn ni'n falch iawn i gyhoeddi bod Tianna hefyd wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru yn erbyn Sweden ar ddiwedd mis Hydref ar gyfer y UEFA Euro Qualifiers. Da iawn Tianna a phob lwc!




## RYGBI

Cafodd 4 dysgwyr bl 11 llynedd eu dewis ac wedi cynrychioli Tîm Rygbi rhanbarthol dan 17 oed ardal Dwyrain Y Gweilch. Llongyfarchiadau a da iawn i George Richards, Chris Pound, Morgan Davies a Kai Clark.



## CRICED

Mae Aron Bird, blwyddyn 9 wedi cynrychioli tîm criced Cymru dan 13 oed gan berfformio'n rhagorol - 125 rhediad, 'not out'!




## HOCI

Dros y haf gwnaeth Daniel Stoodley, bl11, gynrychioli tîm hoci Cymru o dan 16 yng nghystadleuaeth 'Futures Cup' yn Lloegr. Roedd Lloegr wedi gwahanu i bedwar tîm gwahanol wrth iddynt chwarae ar gyfer eu rhanbarthau, roedd hefyd tîm o'r Alban a tîm o Gymru, oedd yn chwarae gydag enw newydd sef y 'Celtic Jaguars'. Roedd e'n brofiad hwylus ac yn heriol iawn i Daniel gan fod safon y chwarae yn uchel iawn ac roedd yr awyrgylch yn anhygoel.



## PAFFIO

Ar ddechrau mis Hydref, bu dysgwr bl9, Jack Sandford, yn cystadlu yn y Cwpan Paffio Cymraeg WABA yng Nghaerdydd. Roedd e'n cystadlu yn y categori o dan 15 oed (60kg). Fel arfer, mae Jack yn cystadlu yn y dosbarth 'dechreuwr', ond aeth ymlaen yn y cystadleuaeth i ymladd yn y categori uwch yn erbyn paffwyr llawer mwy profiadol. Cyrhaeddodd Jack y rownd cyn-derfynol ac er nad oedd wedi ennill, gwnaeth yn arbennig o dda a dyn ni i gyd yn falch iawn ohono. Da iawn Jack!



## DIWRNOD HER

Yn ystod diwrnod her 1 roedd blwyddyn 7 wedi gweithio fel dosbarthiadau cofrestru i ddysgu beth yw ystyr cymuned a pham fod cymunedau yn bwysig iddyn nhw a'u bywydau. Roedd y dysgwyr wedi gweithio wedyn ar greu arwyddlun er mwyn cynrychioli eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Cyflwynodd pob grŵp yr arwyddluniau i'r dosbarth ac fe bleidleisiodd y dosbarthiadau am eu hoff un. Mi fydd yr arwyddlun buddugol yn cael eu harddangos yn nosbarthiadau cofrestru y dysgwyr. Dyma rai o enillwyr Blwyddyn 7.









## GWISGO COCH —DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

I ddathlu 25 mlynedd ers Gwisgo Diwrnod Coch, anogwyd yr holl staff a dysgwyr i wisgo coch ar 22.10.21 i ddangos ein cefnogaeth i'r diwrnod ymwybyddiaeth gwrth-hiliaeth cenedlaethol. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd £1 i gefnogi digwyddiad codi arian y flwyddyn ar gyfer y sefydliad pwysig hwn.




## SENEDD IEUENCTID CYMRU

Llongyfarchiadau i Bryn Lloyd, Grace Gibson a Holly-May Brown o flwyddyn 9 sydd wedi'u dewis fel ymgeiswyr ar gyfer etholaeth Ogwr yn etholiad Senedd Ieuenctid Cymru eleni. Mae angen i ddysgwyr gofrestru i bleidleisio erbyn 12.11.21 cyn y pleidlais ar 15.11.21.

**Digwyddiad / Rhywbeth yn eich poeni?**

Cofiwch fod staff yr ysgol ar gael i wrando ac i gynnig cymorth. Tîm diogelu'r ysgol ydy: Mr Iwan Jones, Mrs Claire Jones, Mrs Lisa Woodrow, Mrs Non Lewis, Miss Gemma Griffiths a Mrs Lisa Lewis.